S4C

03.03.2022

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ffoaduriaid Wcráin yn rhannu eu galar a'u gofid

Mewn rhaglen arbennig o Y Byd ar Bedwar bydd y newyddiadurwr Iolo ap Dafydd yn teithio i Wlad Pwyl i glywed profiadau rhai o'r miloedd sydd wedi gorfod ffoi o Wcráin yn dilyn ymosodiad Rwsia ar y wlad.

Yn gyn-ohebydd i'r BBC ac i TRT World, mae Iolo ap Dafydd wedi bod yn newyddiadura ar nifer o ryfeloedd y byd yn ystod ei yrfa yn cynnwys rhyfel y Crimea yn 2014. Ond doedd e ddim wedi disgwyl y sefyllfa bresennol yn Wcráin i ddwysau mor sydyn.

*"Cyn rhyfel Irac, Afghanistan, cyn Kosovo…..roedd 'na deimlad anorfod weithiau bod cloc yn cerdded at ryfel. Dwi di gohebu a dilyn a dyfalu pa mor anorfod yw'r trywydd yna tuag at ymladd. Tro yma dwi'n teimlo, ar ôl i Rwsia anfon yr holl daflegrau a'r arfau i'r ffin â Wcráin, roedd gwrthdaro wastad yn gallu digwydd ond dw'n i ddim faint o bobl fis nôl fyddai wedi darogan y byddai'n debygol. Ma' Putin yn mynd i gael ei gofio fel yr arweinydd sydd wedi peryglu heddwch cyfandir Ewrop wedi iddo fygwth rhyfel niwclear a meddiannu ac ymosod ar Wcráin," meddai Iolo.*

Mae tua miliwn o bobl bellach wedi gorfod gadael eu cartrefi a ffoi o Wcráin.

Bydd Y Byd Ar Bedwar yn dilyn taith Iolo i Medyka, tref yng Ngwlad Pwyl ger y ffin a Wcráin, sydd bellach yn groesffordd i'r ffoaduriaid.

*"Ar y ffin yng ngwlad Pwyl dwi di gwylio pobl yn ffoi o'u gwlad eu hunain, yn dianc i ddiogelwch…. cymaint ydi'r ofn be all ddigwydd nesaf. Ma nhw'n cerdded yn ben isel, yn ddagreuol, yn flinedig ac yn cario plant a babanod a phrin dim byd arall. Dwi wedi gwylio pobl gyffredin yn ceisio ymdopi a'r argyfwng mwya' anghffredin yn eu bywydau. O siarad gyda phobl, yr Wcraniaid sy' di dod draw, ma' agweddau pobl yn caledu. Ma'n anodd gweld nhw'n ildio … os fydd ymosodiadau Putin yn parhau ac yn dwysáu, mi all y colli bywydau a'r tywallt gwaed fod ar raddfa ofnadwy".*

Ger Medyka mae Iolo yn cyfarfod Liuba Bacz, sydd yn aros i'w merch a'i wyres i groesi'r ffin ar ôl ffoi o Ternopil yn Wcráin.

*"Mae fy nghalon yn brifo. Dwi wedi bod yn aros yma am 4 diwrnod, ers i'r rhyfel gychwyn, dros 80 awr o aros yn barod. Ond dwi'n mynd i aros nes fydd fy wyres a fy merch yn cyrraedd" meddai Liuba.*

Tra'n ffilmio fe wnaeth Iolo ddod ar draws tad ifanc, Stanislav, oedd yn esbonio bod e wedi ffoi i achub bywydau ei ddau o blant bach. Ond ro'dd Stanislav yn obeithiol am ymdrech milwyr a dinasyddion Wcráin yn eu brwydr yn erbyn byddin Rwsia:

*“Mae ein pobl yn gryf.  Mae ysbryd yr Wcrainiaid yn gryf. Ac os yw Mr Putin yn credu y gall ddinistrio yr ysbryd hynny, mae e wedi neud camgymeriad mawr. Fe wnawn ni ei drechu.”*

Bydd y rhifyn arbennig o Y Byd ar Bedwar ar S4C nos Lun am 8pm ac ar S4C Clic.

**Y Byd ar Bedwar: Argyfwng Wcrain**
**Nos Lun 7 Mawrth 2022, 8:00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad ITV Cymru ar gyfer S4C**

03.03.2022

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ukranian refugees share their fears and grief

In a special **Y Byd Ar Bedwar** programme, the journalist Iolo ap Dafydd travels to Poland to hear about the experiences of some of the thousands of people who have had to flee from Ukraine following Russia's attack on the country.

A former BBC and TRT World reporter, Iolo ap Dafydd has reported on several conflicts during his career including the war in Crimea in 2014. But he wasn't expecting the current situation in Ukraine to intensify so quickly.

"Before the Iraq war, Afghanistan, before Kosovo... there was an unescapable feeling that the clock was ticking down towards war. I have reported, followed and speculated on how inevitable the road to war was.

"This time I feel, after Russia sent all the missiles and weapons to the border with Ukraine, that conflict could always happen but I don't know how many people thought a month ago that it was likely to happen. Putin will be remembered as the leader who jeopardised peace on the continent of Europe after he threatened nuclear war and invaded and occupied Ukraine," said Iolo.

Around a million people have had to leave their homes and flee from Ukraine.

Y Byd Ar Bedwar will follow Iolo's journey to Medyka – a town in Poland near the border with Ukraine, which is now a crossing point for the refugees.

"On the border with Poland, I have seen people flee their homeland, escaping to safety because they are so afraid about what could happen next. They walk with their heads down, in tears, exhausted, carrying their children and babies and very little else. Speaking with the people, the Ukranians who are coming over, people's attitudes are hardening. I can't see them giving up ... but if Putin's attacks continue and intensify, the bloodshed and loss of life could be on a terrible scale."

Near Medyka Iolo meets Liuba Bacz, who is waiting for his daughter and grand-daughter to cross the border after fleeing from Ternopil in Ukraine.

"My heart is breaking. I have been waiting here for four days, since the war began, more than 80 hours of waiting already. But I am going to wait until my daughter and grand-daughter arrive," said Liuba.

While filming, Iolo came across a young father, Stanislav, who explains that he has fled in order to save the lives of his two small children. But Stanislav was optimistic about the efforts of Ukranian troops and citizens in their fight against the Russian army.

"Our people are strong. The spirit of Ukranians is strong. And if Mr Putin thinks he can destroy this spirit, he has made a big mistake. We will beat him."

This special edition of Y Byd ar Bedwar will be on S4C on Monday at 8pm and on S4C Clic.

**Y Byd ar Bedwar: Argyfwng Wcrain**
**Monday 7 March 8.00, S4C**
**English subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**An ITV Cymru production for S4C**